



### Twmpath Llosg Radur

Gweddillion twmpath cynhanesyddol wedi'i losgi, wedi'i greu gan y malurion ar ôl cynhesu dŵr gyda cherrig poeth.

Mae'r twmpath yn dyddio yn ôl i'r Oes Efydd (tua 2300-800CC). Cafodd panel gwybodaeth ei osod ar y safle.



### Castell a Chaer Rufeinig Caerdydd

Mae'r ardal restredig yn cynnwys caeadle petryalog muriog (yn hwyr yn yr Oes Rhufeinig), sy'n cynnwys mwnt Normanaidd sydd wedi'i goroni gan orthwr sydd wedi'i gynnal yn dda. Ceir porth mynedfa i'r de, a chyfres o adeiladau canoloesol i'r gorllewin a gafodd eu hailfodelu yn y 19eg ganrif.



### Pwmp Dŵr Melingruffydd

Adeiladwyd y pwmp dyfeisgar hwn ym 1806. Mae'n cynnwys olwyn fawr gyda phadlau pren. Cafodd ei ddefnyddio i bwmpio dŵr i fyny o lle mae'r Taf yn bwydo i mewn i Gamlas Morgannwg.

Cafodd y pwmp ei atgyweirio'n gynhwysfawr yn 2010. Cafodd panel gwybodaeth ei osod ger y safle.

## Gwybodaeth ychwanegol:



[cadw.gov.wales](http://cadw.gov.wales)



[www.ggat.org.uk](http://www.ggat.org.uk)



[cardiff.gov.uk/conservation](http://cardiff.gov.uk/conservation)

# Henebion Gofrestredig



## Dynodi Henebion Cofrestredig

Dan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gasglu a chynnal Cofrestr o henebion o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae henebion sy'n gynwysiedig yn y cofnod yn cael eu hamddiffyn yn statudol a chânt eu rheoleiddio gan Cadw, sef gwasanaeth yr amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru.

Mae dros 4,000 o henebion cofrestredig yng Nghymru. Mae Henebion Cofrestredig yn cynrychioli cyfradd bach yn unig o'r cyfanswm o safleoedd archaeolegol y gwyddys amdanynt yng Nghaerdydd. Mae llawer o rai eraill o bwysigrwydd amrywiol, a gofnodwyd ar Gofnod yr Amgylchedd Hanesyddol (HER) a ddelir gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent (GGAT).

Mae'r HER yn dangos a yw'n hysbys bod gweddillion archaeolegol yn bresennol neu a ydynt yn debygol o bodoli ar safle penodol. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar [ggat.org.uk/her/her](http://ggat.org.uk/her/her).

## Gweithgareddau a Reolir

Cyn i unrhyw waith, addasiadau neu hyd yn oed gloddfeydd archaeolegol a reolir gael eu gwneud mewn heneb, mae'n rhaid cael Cydsyniad ar gyfer Henebion Rhestredig gan Lywodraeth Cymru. Caiff y swyddogaeth hon ei gweinyddu gan Cadw.

Mae'n drosedd gwneud gwaith ar safle heneb rhestredig heb gael cydsyniad yn gyntaf. Hefyd mae Cadw yn darparu canllawiau manwl sy'n rhoi gwybodaeth bellach am feini prawf amserlennu, grantiau sydd ar gael a ffynonellau cyngor

([www.cadw.llyw.cymru](http://www.cadw.llyw.cymru)).

Mae defnyddio offer datgelu metel yn anghyfreithlon cyn cael caniatâd ysgrifenedig gan Cadw.

## Henebion Cofrestredig yng Nghaerdydd

	Safle	Dosbarth
1	**Tair Magnelfa adeg Palmerston, Echni	Canoloesol ac ôl-ganoloesol Seciwlar
2	**Flat Holm amddiffynfeydd arfordirol a gwrth-	Ail Ryfel Byd ac Amddiffynnol
3	**Fila Rufeinig yn Nhrelai	Gweddillion Rhufeinig
4	**Pont Lecwydd	Canoloesol
5	**Castell a Chaer Rufeinig Caerdydd	Canoloesol ac ôl-ganoloesol Seciwlar
6	**Ty'r Brodyr Dominicaidd	Eglwysig a Ffynhonnau
7	Castell Morgraig	Canoloesol ac ôl-ganoloesol Seciwlar
8	**Clochdwr Cadeirlan Llandaf	Eglwysig a Ffynhonnau
9	**Hen Balas yr Esgobion	Canoloesol ac ôl-ganoloesol Seciwlar
10	Croes ym Mhalas Llandaf	Croesi a Cherrig arysgrifenedig
11	Croes Mynwent Llaneirwg	Croesi a Cherrig arysgrifenedig
12	Gwersyll Llwynda-Ddu	Cynhanesyddol, Domestig ac Amddiffynnol
13	Pum Crug Crwn ar Fynydd y Garth	Cynhanesyddol, Angladdol a Defodau
14	Siambwr gladdu Cae-yr-Arfau	Cynhanesyddol, Angladdol a Defodau
15	Gwersyll Maes y Castell, i'r dwyrain o Graig-Llwyn	Cynhanesyddol, Domestig ac Amddiffynnol
16	Twmpath Cuginio, i'r dwyrain o Deras Taff Terrace	Cynhanesyddol, Domestig ac Amddiffynnol
17	**Twmpath Castell Pentre-poeth	Canoloesol ac ôl-ganoloesol Seciwlar
18	Twmpath, Rhiwbeina	Canoloesol ac ôl-ganoloesol Seciwlar
19	**Gwersyll y Wenallt	Cynhanesyddol, Domestig ac Amddiffynnol
20	**Safle Rhufeinig Pen-y-lan	Gweddillion Rhufeinig
21	**Gwersyll Caer Castell	Cynhanesyddol, Domestig ac Amddiffynnol
22	Castell Coch	Canoloesol ac ôl-ganoloesol Seciwlar
23	**Morglawdd Creiriol ar Lanfa Fawr Tredelerch	Canoloesol ac ôl-ganoloesol Seciwlar
24	**Pwmp Dŵr Melin gruffydd	Diwydiannol
25	**Caer Caerau	Cynhanesyddol, Domestig ac Amddiffynnol
26	**Llongdrylliad y "Louisa"	Diwydiannol
27	**Harbwr Llanw Elai Glanfa Lo Rhif 1	Diwydiannol
28	Llwyfan Magnel Amddiffyn Harbwr Doc Alexandria Dock	Ail Ryfel Byd ac Amddiffynnol
29	**Cyn Ysbyty Ynysu Colera Ynys Echni (Ynghyd â'r Golchdy A Thŷ'r Meddyg)	Lechyd a Lles
30	**Ffos A Rhagfur Fictoraidd Wedi'u Torri Mewn Craig Ar Ynys Echni	Amddiffynnol
31	**Crynhöydd Dŵr Glaw Fictoraidd Ynys Echni	Cyflenwad Dŵr a Draenio

\*\* Perchnogir (neu perchnogir yn rhannol) gan Gyngor Caerdydd

Gellir edrych ar leoliadau'r henebion ar wefan mapio'r Cyngor [ishare.caerdydd.gov.uk](http://ishare.caerdydd.gov.uk)